

CYFRIFOLDEBAU TRAWSGWRICWLAIDD


Côd y Modiwl: ECAD6012C
Rhif myfyriwr: 1701588

Lluniwch a chyflwynwch boster academaidd sy'n defnyddio modelau damcaniaethol o addysgu trawsgwricwlaidd i ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.

Cyflwyniad

Pwrpas y poster academaidd yw cyflwyno modelau damcaniaethol o addysgu trawsgwricwlaidd sydd yn ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Noda Barnes (2015) bod dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd pan mae sgiliau, gwybodaeth ac agweddau gwahanol ddisgyblaethau yn cael eu hymgorffori i faes neu fater. Yn debyg, awgryma Jacobs (1989) mae dull trawsgwricwlaidd yn ymgorffori mwy nag un maes pwnc a gellir eu cysylltu â thema, proses neu brofiad. Hynny yw, mae dulliau trawsgwricwlaidd yn meithrin i gryfhau'r meysydd dysgu o dan sylw.

Gwelir fframwaith 'Dyfodol Llwyddiannus' yn ategu argymhellion ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 (2019). Rhoddwyd statws blaenorol i Lythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol fel Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd. Rhaid sicrhau cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu cymhwysedd yn y meysydd hynny trwy strwythur y cwricwlwm.



Gwelir modelau Barnes (2015) fel ffordd effeithiol i ymgorffori'r cyfrifoldebau yma. Nodir wyth model gwahanol o ddysgu trawsgwricwlaidd, sef:

- Symbolaidd
 - Hierarchaidd
 - Pwnc Unigol Trosglwyddiadau
 - Thema seiliedig
- Amlddisgyblaethol
 - Rhyngddisgyblaethol
 - Oportiwlistaidd
 - Ffocws-dwbl

Penderfynwyd seilio'r gweithgareddau enghreifftiol ar fodel Amlddisgyblaethol ac Oportiwlistaidd er mwyn ymgorffori'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Lluniwyd y gweithgareddau ar gyfer Cyfnod Allweddol Dau, blwyddyn 5 wedi'u seilio ar thema yn 'Y Llychlynwyr'. Datblygwyd gweithgareddau a fydd yn ategu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (2019) trwy addysgu agweddau o Hanes a Daearyddiaeth.



MODEL 1 Aml-ddisgyblaethol

Diffinia Barnes (2015) model amlddisgyblaethol fel dull sydd yn defnyddio profiad neu thema i ddatblygu lefelau uchel o ddealltwriaeth a pherfformiad mewn dwy neu fwy o ddisgyblaethau. Gwelir ffordd felly, i fedru sicrhau dysgu effeithiol ym mhob pwnc. Amlinella Barnes (2015) heriau'r model gan nodi er mwyn bod yn llwyddiannus, angen cynllunio manwl, hyder a gwybodaeth athrawon. Er hyn, awgryma Estyn (2015, dyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru, 2017), nid oes disgwyl i ysgolion greu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu medrau TGCH, rhifedd neu lythrennedd ym mhob gwers. Mynna Hayes (2010) gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd, gwelir modd i ddefnyddio sgiliau mewn un pwnc i atgyfnerthu eu gwybodaeth mewn meysydd arall. Credir fod hyn yn wir gan ddefnyddio'r model yma, gan fod y sgiliau datblygwyd mewn Hanes yn helpu plant i ddeall gwybodaeth mewn Daearyddiaeth. Cyflwynir gweithgareddau enghreifftiol gan ddefnyddio'r model amlddisgyblaethol i ymgorffori Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol o fewn y prif bynciau Daearyddiaeth a Hanes i addysgu'r thema 'Y Llychlynwyr'.

Gweithgaredd 1
Hanes/Cymhwysedd Digidol: Yn y gweithgaredd gyntaf, bydd y plant yn defnyddio'r rhyngrwyd er mwyn dod o hyd i wybodaeth am hanes y Llychlynwyr gan gynnwys o ble y daethant, megis Norwy, Sweden a Denmarc. Wedyn, disgwylir i'r plant defnyddio'r wybodaeth yma i greu llinell amser sydd yn nodi prif ddigwyddiadau o fewn y cyfnod AD700 i 1100.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:

- **FfCD** - *addasu allweddeiriau a thechnegau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol.* (Llywodraeth Cymru, 2016).
- **Hanes** - *defnyddio llinellau amser i ddilysu digwyddiadau.* (Llywodraeth Cymru, 2008).

Gwelir cysylltiad clir â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (2019) gan ymgorffori rhifedd yn y gweithgaredd Daearyddiaeth wrth iddynt ddarllen map mewn cyd-destun y Llychlynwyr (Llywodraeth Cymru, 2019).

Daearyddiaeth: Ar ôl darganfod y wybodaeth hynny, atgyfnerthir sgiliau mapio wrth iddynt ddefnyddio map i chwilio am y gwledydd a theithiodd y Llychlynwyr i fasnachu, er enghraifft Prydain ac Iwerddon. Bydd y plant yn lliwio'r gwledydd y maent yn teithio ar long hir a chreu llwybr posib i fasnachu. Atgyfnerthir sgiliau mapio wrth ddethol gwybodaeth benodol gan ddarllen atlas neu fap.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:

- **Daearyddiaeth** - *defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.* (Llywodraeth Cymru, 2008).

Gweithgaredd 2
Argymhella Estyn (2009) bod angen rhoi mwy o sylw i wella ysgrifennu disgyblion, gwelir cyfle i wella hyn yn y gweithgaredd yma.

Llythrennedd: Yn yr ail weithgaredd, bydd y plant yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol trwy ysgrifennu dyddiadur fel Llychlynwyr sy'n gadael ei wlad yn Sgandinafia i naill ai ymgartrefu neu fasnachu ym Mhrydain. Rhaid i'r plant defnyddio eu dychymyg a defnyddio iaith briodol i gyflwyno teimladau a meddylfryd.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:
Llythrennedd - Llinyn: Ysgrifennu

- *dewis a defnyddio ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus gyda chywirdeb cynyddol.*
- *addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol, e.e. dyddiadur.* (Llywodraeth Cymru, 2016).

Gweithgaredd 3
O fewn y gweithgaredd yma, cynlluniwyd cysylltiadau clir â drafft Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr feithrin eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destun go iawn wrth iddynt gasglu a chofnodi data (Llywodraeth Cymru, 2019).

Rhifedd: Ar gyfer y trydydd gweithgaredd, ymgorfforir sgiliau rhifedd mewn ffordd greadigol a mentrus gan ddefnyddio dull amlddisgyblaethol i addysgu'r prif bynciau. Bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau o 3-4 a fydd yn cynrychioli gwlad benodol. Er enghraifft bydd 3 grŵp yn cynrychioli Llychlynwyr o Norwy, Denmarc a Sweden. Yna, bydd y grwpiau eraill yn cynrychioli'r bobl o Brydain ac Iwerddon. Bwriad y gweithgaredd yw masnachu cynnyrch rhwng y gwledydd ac yna cytuno ar bris er mwyn gwneud elw. Y grŵp llwyddiannus yw'r rhai sydd yn gwneud yr elw fwyaf, angen i'r plant cofnodi eu canfyddiadau yn eglur a rheoli arian yn effeithiol i wneud hyn.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:
Rhifedd -

- *dadansoddi data a datrys problemau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo.*
- *defnyddio'r termau elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau syml ar gyfer hyn.*
- *cymharu prisiau a deall beth sy'n cynnig y gwerth orau am arian.* (Llywodraeth Cymru, 2016).

MODEL 2 Oportiwlistaidd

Dywed Barnes (2015) mae'r model Oportiwlistaidd yn galluogi plant i ddewis dyfnder a chyfeiriad eu dysgu sy'n codi o thema gyda Hanes fel y prif bwnc ac ymgorffori sgiliau rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol. Wrth wneud hyn, caiff dysgwyr nid yn unig dealltwriaeth ddyfnach yn y maes, ond hefyd gwelir modd i hybu eu cymhelliant ac awydd i ddysgu wrth sicrhau llais y plentyn. Amlygir bod y dull yma o addysgu'n drawsgwricwlaidd yn benagored sy'n trosglwyddo'r dysgu dan arweiniad y plant gan ganolbwyntio ar waith annibynnol a grŵp. Atgyfnerthir un o'r pedwar diben Donaldson (2015) sef datblygu'n dysgwyr mentrus a chreadigol o fewn y gweithgareddau uchod.

Bwriedir hefyd defnyddio elfennau o fodel 'Tacsonomeg Bloom' a datblygwyd gan Bloom (1956) fel fframwaith y dylai pob athro defnyddio er mwyn arwain ei ddisgyblion i ganolbwyntio ar sgiliau meddwl uwch. Credir fod y model yma yn ddefnyddiol ar gyfer y gweithgareddau er mwyn ofyn cwestiynau a meddwl yn feirniadol gan gynnal ymholiad i'r Llychlynwyr. Yn ôl... gan ddefnyddio'r model Tacsonomeg Bloom, bydd gan y myfyrwyr sylw gwell i fanylion, a chynnydd yn eu sgiliau deall a datrys problemau. Gwelir modd i gyfuno rhai elfennau o'r model yma â model oportiwlistaidd er mwyn cynnal ymholiad annibynnol tra hefyd annog y plant i gwestiynu eu canfyddiadau. Gwelir cysylltiadau â Maes Dysgu a Phofiad y Dyniaethau trwy ymholi ac ymchwilio gan ffurfio dehongliadau eu hun am y Llychlynwyr (Llywodraeth Cymru, 2019).

Gweithgaredd 1
Yn ôl arfer dda Estyn (2019), caiff disgyblion eu trochi mewn datblygu medrau annibyniaeth wrth ddatrys problemau, meddwl ac ymchwilio. Atgyfnerthir un o bedwar diben Donaldson (2015), sef sicrhau cyfleoedd i blant datblygu'n dysgwyr annibynnol sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun. Ystyrir cyfloed i ddysgu'n annibynnol fel rhesymwaith da ar gyfer y gweithgareddau isod.

Llythrennedd/Rhifedd/ Hanes - Ar gyfer y gweithgaredd gyntaf o fewn y model Oportiwlistaidd, bydd y plant yn wneud ymholiad unigol i ddarganfod gwybodaeth am ffordd o fyw'r Llychlynwyr, gan gynnwys beth yr oedden nhw'n eu bwyta, gwisgo, ac ati. Ar ôl wneud hyn, gwaith unigol y plant bydd trosglwyddo'r wybodaeth i ysgrifennu rysâit gyda chyfarwyddiadau ar gyfer coginio bwyd i'r Llychlynwyr. Darperir dewis i'r plant ynglŷn â beth yw'r bwyd neu ddiod, syniad posib yw mel neu stiw gyda chynhwysiant amrywiol. Disgwylir iddynt dangos sgiliau rhifedd gan ddefnyddio unedau mesur safonol, megis gram, milimetrau a litrau, er enghraifft.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:

- **Hanes** - *adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.* (Llywodraeth Cymru, 2008).
- **Rhifedd** - *defnyddio ieithwedd unedau imperial a ddefnyddir yn feunyddiol.* (Llywodraeth Cymru, 2015).
- **Llythrennedd** - *defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu, e.e. is-benawdau, penawdau.* (Llywodraeth Cymru, 2016).

Gwelir cyfle i gysylltu â haen gyntaf Tacsonomeg Bloom sef 'Gwybodaeth', trwy ofyn cwestiynau i'r dysgwyr am beth a wnaethant ddysgu am y Llychlynwyr er mwyn weld a ydyn nhw wedi cael mewnwelediad i'r wers. Enghraifft o gwestiwn posib yw 'Sut fydddech chi'n disgrifio ffordd o fyw Llychlynwyr?'

Gweithgaredd 2
Dylunio a Thechnoleg - Gwelir cyfle i hybu gwaith annibynnol o fewn y model oportiwlistaidd wrth ymgorffori llythrennedd mewn gweithgaredd Dylunio a Thechnoleg. Darperir rhyddid i'r plant yn y gweithgaredd yma yn seilïo ar eu gwaith ymchwil yr ymholiad. Disgwylir iddynt drosglwyddo eu gwybodaeth am ffordd o fyw'r Llychlynwyr er mwyn datblygu eu syniadau ar gyfer dylunio cynnyrch eu hun gan ystyried defnydd, lliw, cynnwys, ac yn y blaen. Efallai bydd rhai yn dewis dylunio bwyd tra bod eraill yn lliwio bwyd neu emwaith, gyda'r bwriad o'r gwledydd eraill yn eu gweld yn ddefnyddiol neu'n ddiddorol.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:

- **Dylunio a Thechnoleg** - *ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth i gynhyrchu syniadau am gynhyrchion*
- *gwerthuso'u syniadau dylunio wrth iddynt ddatblygu, gan ystyried anghenion y defnyddiwr.* (Llywodraeth Cymru, 2008).

Gwelir cyfle i ddefnyddio cwestiynu effeithiol ail haen Tacsonomeg Bloom sef 'Dealltwriaeth' er mwyn dehongli ffeithiau a ddysgwyd ganddynt. Enghraifft o gwestiwn posib yw 'Beth yw prif syniad neu bwrpas tu ôl eich cynnyrch?'

Gweithgaredd 3
Cymhwysedd Digidol/ Llythrennedd - Yn dilyn o'r gweithgaredd dylunio cynnyrch, gwelir cyfleoedd i'r plant ehangu a datblygu eu sgiliau menter a chreadigrwydd wrth gyflwyno eu syniadau i weddill y dosbarth. Gan ddefnyddio sgrin wyrdd, bydd y plant yn sefydlu cefndir 'Dragon's Den' lle bydd y plant yn cyflwyno eu cynnyrch i'r panel, sef y gwledydd o Brydain ac Iwerddon. Angen i'r plant eglluro'r rhesymeg dros eu dewis gan ganolbwyntio ar eu pwynt gwerthu unigryw a sicrhau bod y cynnyrch yn unigryw ac yn newydd.
Sgiliau'r cwricwlwm Blwyddyn 5:

- **Llinyn:** Ysgrifennu - *ysgrifennu cyflwyniad sy'n gosod cyd-destun, cyfres o bwyntiau mewn trefn briodol a diweddgllo addas.*
- **Llinyn:** *Llafar - siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, ton a chryfder y llais i gadw diddordeb y gwrandawyr.* (Llywodraeth Cymru, 2016).
- **FfCD** - *dewis a chyfuno ystod o destun, delwedda, sain, animeiddiad a fideo i sicrhau canlyniad at ddiben penodol.* (Llywodraeth Cymru, 2016).

Gwelir cyfle i ddefnyddio cwestiynu a gwelwyd yn y drydedd haen Tacsonomeg Bloom sef 'Cais' er mwyn cymhwyso neu'n defnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir annog y plant i gwestiynu eu cynnyrch gan ofyn cwestiynau megis 'Sut fydddech chi'n gwella eich syniad yn y dyfodol?'

CYFLEOEDD Y DULLIAU TRAWSGWRICWLAIDD

Gwelir cyfleoedd i ddatblygu galluoedd plant wrth ymgorffori'r llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn perthynas â'r modelau trawsgwricwlaidd:

CYSYLLTIADAU RHWNG PYNCIAU

- Gallu trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau o un maes i'r llall a defnyddir sgiliau a ddysgir mewn un pwnc i atgyfnerthu a chefnogi dysgu mewn pynciau eraill.
- Model amlddisgyblaethol - gallu trosglwyddo gwybodaeth am Hanes i helpu dysgwyr datblygu eu sgiliau yn Ddaearyddiaeth.
- Datblygu Sgiliau
- Bydd ymgorffori rhifedd yn datblygu sgiliau sylfaenol plant, e.e. Model 1 - Trin arian y Llychlynwyr. Noda Estyn (2017a) nid yw ysgolion yn ddarparu digon o gyfleoedd i ddatblygu eu galluoedd ariannol mewn gweithgareddau mewn gwahanol gyd-destunau.

DYSGU ANNIBYNNOL

- Model oportiwlistaidd - Darperir dewis i sicrhau bod y plant yn datblygu'n dysgwyr annibynnol, e.e. Gwneud ymholiad unigol, creu cynnyrch ac ysgrifennu rysâit.
- Awgryma Estyn (2017b) wrth addysgu'r Dyniaethau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn gweld tasgau'n anodd.

HERIAU'R DULLIAU TRAWSGWRICWLAIDD

Ystyrir heriau ynghlwm â defnyddio'r modelau i ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
COLLI FFOCWS PYNCIOL A CHYNNYDD

- Gall gormod o gysylltiadau â phynciau neu feysydd dysgu yn arwain at golli cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn y prif bwnc neu faes.
- O ganlyniad i hyn, dywed Barnes (2012), gall dilyniant pynciau yn anodd pan fo dau neu mwy o bynciau yn cael eu cysylltu.
- Ystyrir her dull oportiwlistaidd, dadleua Hayes (2010), yw darparu gormod o ryddid i blant ac felly yn gallu osgoi meysydd anodd. At hyn, cydnabyddda Plowden (1967), yr angen am weithgareddau sy'n cael eu arwain gan athro er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cysyniad.
- Ymhellach, amlyga Hayes (2010) bod cysylltiadau rhwng rhai pynciau yn fwy naturiol nag eraill sydd yn gwneud cynllunio yn anodd. Felly, her model oportiwlistaidd yw bod y plant yn dewis cyfeiriad y dysgu sydd yn wneud cynllunio amdani yn anrhwagweladwy.

Diweddgllo

Gan ystyried modelau damcaniaethol Barnes (2015), gellir deall y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cael eu hymgorffori i gryfhau ac atgyfnerthu'r meysydd dysgu. Er bod yna heriau i'r dulliau megis cynllunio ac asesu, amlwg yw'r ffaith y bydd cymhwysedd yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn werthfawr i'r cwricwlwm newydd i Gymru er mwyn helpu plant deall y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng meysydd pwnc. Os mae addysgu'r modelau trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus, gwelir modd i hybu creadigrwydd plant a'u gallu i wneud cysylltiadau.

Rhestr cyfeirnod

Barnes, J. (2012). *Cross-curricular learning 3–14. 2nd Ed.* London: Sage

Barnes, J. (2015). *Cross-curricular learning 3–14. 3rd Ed.* London: Sage

Bloom, B.S. (1956). Taxonomy of educational objectives: The classification of educational goals. New York, NY: Longmans, Green.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Estyn (2017a) *Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/rheoli-arian-addysg-ariannol-mewn-ysgolion-cynradd-ac-uwchradd-yng-nghymru> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Estyn (2017b) *Arfer dda yn y Dyniaethau*. Caerdydd. Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arfer-dda-yn-y-dyniaethau> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Estyn. (2009) *Rhannu arfer da wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion*. Caerdydd. Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Rhannu%20arfer%20dda%20wrth%20ddatblygu%20medrau%20llythrennedd%20disgyblion%20-%202009.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Estyn. (2019). *Galluogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/galluogi-disgyblion-i-ddod-yn-ddysgwyr-annibynnol> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Hayes, D. (2010). *The seductive charms of a cross-curricular approach*. Routledge. Ar gael yn: [file:///C:/Users/Rachel%20Gledhill/Downloads/Hayes%20%20\(1\)%20\(3\).pdf](file:///C:/Users/Rachel%20Gledhill/Downloads/Hayes%20%20(1)%20(3).pdf) (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Jacobs, H. (1989). *The growing need for interdisciplinary curriculum content*. In *Interdisciplinary curriculum: Design and implementation*, ed. H.H. Jacobs, 1–13. Alexandria, VA: ASCD

Lewis, B. (dyddiad anhysbys). *Tacsonomeg Blodau: Yr Offeryn Anhygoel Addysgu*. Ar gael yn: https://www.ehow.co.uk/how_7771589_reference-blooms-taxonomy-apa-format.html (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru. (2017). *Llythrennedd a rhifedd: Atebion i'ch cwestiynau*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/03/98/f6/f8/7e6645b1b74c95f39d7b2890/llythrennedd-a-rhifedd-atebion-ich-cwestiynau.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019). *Cwricwlwm Drafft i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2008) *Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/19434875-c906-49b4-8fda-dd76e1f7f8c3/daearyddiaeth-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2008). *Dylunio a Thechnoleg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/22681170-ef18-40ab-bb49-ac80a2c163a8/dylunio-a-thechnoleg-yng-nghwricwlwm-cenedlaethol.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2008). *Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/8fd85853-6b18-49cc-a78d-4dd355a1f882/hanes-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2015). *Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/7cd157a6-2eb4-46c4-8e0d-af9d1b5f4f62/rhaglen-astudio-ar-gyfer-mathemateg.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2016). *Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blynnyddoedd 3 i 6*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/485165da-145b-41e1-a413-b29109dc867e/fcd-blynnyddoedd-3-i-6.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru.(2016). *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/5982ca20-088a-4035-8dad-57c179b3b058/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf> (Darllenwyd 29 Tachwedd 2019).